Erlyniadau

Y penderfyniad i erlyn

Mae'r daflen hon yn esbonio sut y gwneir penderfyniadau i erlyn

CPS

Mae'r daflen hon ar gael yn

এই লিফলেটটি বাংলায় পাওয়া যাচ্ছে
(Bengali)

ਇਹ ਕਿਤਾਬਚਾ ਪੰਜਾਬੀ ਵਿੱਚ ਉਪਲਬਧ ਹੈ
(Punjabi)

આ પત્રિક ગુજરાતીમાં મળી શકે છે
(Gujurati)

This booklet is available in English
(Saesneg)

இந்த சிற்றேடு தமிழ் மொழியிலும் கிடைக்கும்.
(Tamil)

本手冊提供中文繁體版本
(Traditional Chinese)

Macluum-sidahaan waxaa lagu helaa af-Soomaali
(Somali)

Ce dépliant est disponible en français
(French)

Ulotka niniejsza dostępna jest w języku polskim
(Polish)

هذه النشرة متوفرة باللغة العربيه
(Arabic)

یہ کتابچہ اردو میں دستیاب ہے۔
(Urdu)

Mae'r daflen hon yn esbonio sut y gwneir penderfyniadau i erlyn

Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yw'r prif wasanaeth erlyn cyhoeddus ar gyfer Cymru a Lloegr. Yn Ionawr 2010, fe'i hunwyd â'r Swyddfa Erlyniadau Cyllid a Thollau. Fe'i harweinir gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP), sydd hefyd yn Gyfarwyddwr Erlyniadau Incwm a Thollau. Mae'r DPP yn arfer ei swyddogaethau'n annibynnol, yn amodol i oruchwyliaeth y Twrnai Cyffredinol sy'n atebol i'r Senedd am waith y gwasanaeth erlyn.

Cynnwys

Cefndir	2
Y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron	2
Y Penderfyniad P'un ai i Erlyn	4
Dioddefwyr trosedd	7
Y Prawf Trothwy	7
Dethol Cyhuddiadau	8
Penderfyniadau Tu Allan i'r Llys	8
Ieuenctid	9
Derbyn Pledion Euog	10
Ailystyried Penderfyniad i Erlyn	10
Llinell Gymorth i Ddioddefwyr	11
Cwynion	11
Cysylltiadau defnyddiol	12

Cefndir

Cyn llunio'r CPS yn 1986, yr heddlu oedd yn penderfynu p'un a ddylid mynd ag achos i'r llys.

Heddiw, y CPS sy'n penderfynu p'un ai i erlyn pobl yn y llys neu beidio. Fodd bynnag, yr heddlu sy'n dal i ymchwilio i'r drosedd honedig.

Mewn achosion mwy difrifol neu gymhleth, erlynwyr sy'n penderfynu a ddylid cyhuddo rhywun o gyflawni trosedd, ac os dylid, pa drosedd sy'n briodol. Yn yr achosion hynny ble mae'r heddlu'n pennu'r cyhuddiad, maent yn gweithredu'r un egwyddorion.

Rydym yn penderfynu p'un ai i erlyn trwy weithredu'r *Cod ar gyfer erlynwyr y Goron* ac unrhyw bolisïau perthnasol i ffeithiau'r achos penodol.

Y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron



Mae'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron (y Cod) yn ddogfen gyhoeddus sy'n sefydlu'r egwyddorion sylfaenol ddylai erlynwyr eu dilyn wrth wneud penderfyniadau ar achosion. Mae'r Cod yn eistedd gyfochr â'r llyfryn Safonau Ansawdd Craidd, a gyda'i gilydd mae'r ddwy ddogfen yn rhoi gwybod i'r cyhoedd beth mae erlynwyr yn

wneud, ynghyd â sut maent yn gwneud eu penderfyniadau a'r lefel o wasanaeth mae'r gwasanaeth erlyn yn ymroddedig i'w ddarparu ym mhob agwedd allweddol o'i waith. Gallwch gael copïau o'r ddwy ddogfen gan eich swyddfa CPS lleol neu o wefan y CPS www.cps.gov.uk.

Er bod pob achos yn unigryw a bod angen ystyried pob un yn ôl ei ffeithiau a'i rinweddau, mae yna egwyddorion cyffredinol sy'n berthnasol i'r modd y mae'n rhaid i erlynwyr edrych ar bob achos. Rhaid iddynt fod yn deg, yn annibynnol ac yn wrthrychol. Rhaid iddynt beidio â gadael i unrhyw farn bersonol am darddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, anabledd, oed, crefydd neu gredo, daliadau gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd y sawl a ddrwgdybir, y dioddefwr neu unrhyw dyst i ddylanwadu ar eu penderfyniadau.

Mae'n ddyletswydd arnynt i sicrhau bod y person cywir yn cael ei erlyn am y trosedd cywir. Wrth wneud hynny, rhaid i erlynwyr weithredu bob amser er budd cyfiawnder. Ni ddylent weithredu er mwyn cael barnu rhywun yn euog o drosedd yn unig.

Y Penderfyniad P'un ai i Erlyn

Bydd pob achos a dderbynia'r gwasanaeth erlyn gan yr heddlu yn cael ei adolygu i sicrhau ei bod hi'n briodol bwrw ymlaen â'r erlyniad. Mewn achosion mwy difrifol neu gymhleth, erlynwyr sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid cyhuddo rhywun o gyflawni trosedd, ac os dylid, pa drosedd sy'n briodol.

Wrth benderfynu a ddylid erlyn achos yn y llysoedd, fe ddylai erlynwyr ystyried y dewisiadau heblaw erlyn dan amgylchiadau priodol. Mae hyn yn cynnwys rhybudd syml neu amodol i oedolion neu, i bobl ifanc, cerydd, rhybudd neu rybudd amodol.

Pan dderbyniwn ffeil gan yr heddlu, bydd erlynydd yn darllen y papurau a phenderfynu p'un a oes digon o dystiolaeth yn erbyn y diffynnydd a p'un a oes angen erlyniad er lles y cyhoedd. Gan y gall amgylchiadau newid, mae'r erlynydd yn adolygu'r achos yn barhaus. Os yw'r erlynydd yn ystyried newid y cyhuddiad neu atal yr achos, bydd ef neu hi yn cysylltu â'r heddlu ble bynnag fo'n bosibl. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r heddlu ddarparu rhagor o wybodaeth a allai effeithio ar y penderfyniad.

Er bod yr heddlu a'r gwasanaeth erlyn yn cydweithio'n agos, rydym yn gwbl annibynnol o'n gilydd a'r gwasanaeth erlyn sy'n gyfrifol yn y pen draw am benderfynu p'un a ddylid mynd ymlaen â chyhuddiad o drosedd.

Rhaid i erlynwyr ofyn y ddau gwestiwn canlynol iddynt eu hunain pan fyddant yn gwneud eu penderfyniadau

A oes digon o dystiolaeth yn erbyn yr erlynydd?

Rhaid bod digon o dystiolaeth fod 'gobaith realistig o euogfarn' yn erbyn y diffynnydd. Mae gobaith realistig o euogfarn yn brawf gwrthrychol. Mae'n golygu bod rheithgor neu fainc o ynadon neu farnwr sy'n gwrando achos ar ei ben ei hun, a dderbyniodd gyfarwyddwyd priodol ac yn gweithredu'n unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o farnu'r diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad honedig. Mae hwn yn brawf gwahanol i'r prawf y mae'n rhaid i'r llysoedd troseddol ystyried. Dim ond os ydynt yn sicr ei fod neu ei bod yn euog y dylai ynadon neu reithgor euogfarnu diffynnydd.

Wrth benderfynu a oes digon o dystiolaeth i erlyn, rhaid i erlynwyr ystyried a ellir defnyddio'r dystiolaeth yn y llys a p'un a yw'n ddibynadwy. Golyga hyn fod yn rhaid iddynt asesu ansawdd y dystiolaeth gan bob tyst cyn dod i benderfyniad. Ble'r ystyrir y byddai'n ddefnyddiol i asesu dibynadwyedd tystiolaeth tyst neu i gael gwell dealltwriaeth o dystiolaeth gymhleth, dylai erlynydd sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol ac awdurdod gynnal cyfweliad cyn treial gyda'r tyst. Nid yw penderfyniad i beidio mynd ymlaen ag achos yn golygu fod yr erlynydd wedi penderfynu credu un tyst yn hytrach na'r llall.

Os nad oes gobaith realistig o euogfarn, ni ddylid mynd ymlaen â'r achos, waeth pa mor ddifrifol neu sensitif yw.

Os oes gobaith realistig o euogfarn, bydd yr erlynydd yn gofyn y cwestiwn nesaf.

A oes angen erlyniad er lles y cyhoedd?

Ni fu erioed yn rheol yn y wlad hon fod yn rhaid erlyn pob trosedd droseddol yn awtomatig. Oherwydd hyn, rhaid i'r erlynydd ystyried ym mhob achos p'un a oes angen erlyniad er lles y cyhoedd.

Bydd erlyniad fel arfer yn digwydd oni bai fod yr erlynydd yn sicr fod yna ffactorau lles y cyhoedd yn erbyn erlyn sy'n drech na'r rhai sydd o blaid, neu oni bai fod yr erlynydd yn fodlon y gellir gwasanaethu lles y cyhoedd yn gywir trwy gynnig cyfle i'r diffynnydd gael delio â'r mater gyda phenderfyniad tu allan i'r llys yn gyntaf.

Mae'r ffactorau lles y cyhoedd all effeithio ar y penderfyniad i erlyn yn amrywio o un achos i'r llall. Po fwyaf difrifol yw'r drosedd neu gofnod ymddygiad troseddol y troseddwr, y mwyaf tebygol yw hi y bydd angen erlyniad er lles y cyhoedd. Ar y llaw arall, mae'n llai tebygol y bydd angen erlyniad os, er enghraifft, y byddai llys yn debygol o osod cosb enwol yn unig neu fod y golled neu niwed sy'n gysylltiedig â'r drosedd yn fach ac o ganlyniad i un digwyddiad unigol.

Dioddefwyr trosedd

Wrth benderfynu p'un a oes angen erlyniad er lles y cyhoedd, dylai erlynwyr ystyried unrhyw farn a fynegwyd gan y dioddefydd parthed effaith y drosedd arnynt. Mewn ambell achos, dylai erlynwyr ystyried unrhyw farn a fynegir gan deulu'r dioddefwr. Ond nid yw'r gwasanaeth erlyn yn gweithredu ar ran dioddefwyr neu eu teuluoedd yn yr un modd ag y mae cyfreithwyr yn gweithredu ar ran eu cleientiaid, ac mae'n rhaid i'r erlynwyr sefydlu barn gyffredinol o'r achos lles y cyhoedd.

Y Prawf Trothwy

Mae ambell achos ble na fyddai'n briodol i ryddhau unigolyn ar fechnïaeth wedi'r cyhuddo, ond nad yw'r dystiolaeth i sefydlu p'un a oes 'gobaith realistig o euogfarn' ar gael eto. Er enghraifft, efallai na fydd tystiolaeth feddygol neu arbenigol arall wedi ei gasglu yn yr amser cyfyngedig sydd ar gael cyn cyhuddo. Yn yr achosion hyn, bydd erlynwyr yn gweithredu'r Prawf Trothwy. I weithredu'r prawf hwn, rhaid bod sail resymol dros gredu: y bydd tystiolaeth bellach yn dod ar gael o fewn cyfnod rhesymol o amser; fod difrifoldeb neu amgylchiadau'r achos yn cyfiawnhau gwneud penderfyniad cyhuddo ar unwaith; a bod sail i wrthwynebu mechnïaeth.

Dethol Cyhuddiadau

Pan fyddant yn adolygu achos, rhaid i erlynwyr ystyried p'un a yw'r cyhuddiadau yn erbyn y diffynnydd yn gywir. Rhaid iddynt sicrhau bod y cyhuddiadau yn adlewyrchu difrifoldeb a maint y troseddu a rhoi grymoedd dedfrydu digonol i'r llys. Mae'r un mor bwysig fod y dewis a nifer o gyhuddiadau yn caniatáu ar gyfer esbonio'r achos i'r llys mewn ffordd glir a syml.

Golyga hyn y gall erlynydd addasu cyhuddiad yn erbyn diffynnydd o bryd i'w gilydd os oes un arall sy'n gweddu'n well i amgylchiadau'r drosedd.

Penderfyniadau Tu Allan i'r Llys

Fe all erlynwyr gynnig rhybudd amodol ble byddai hyn yn ymateb cymesur i ddifrifoldeb ac oblygiadau'r troseddu. Nid yw rhybudd amodol yn euogfarn droseddol, ond mae'n rhan o gofnod troseddol troseddwr ac fe ellir ei grybwyll mewn llys yn ystod unrhyw weithdrefnau dilynol. Gall erlynwyr hefyd ei ystyried os bydd y troseddwr yn aildroseddu.

Dim ond erlynwyr all benderfynu p'un a ddylid awdurdodi'r cynnig o rybudd syml i droseddwr am drosedd y gellir ei chlywed yn Llys y Goron yn unig. Bydd yr achlysuron pan fydd hyn yn benderfyniad priodol yn rhagorol. Ym mhob achos arall, gall erlynwyr gyfeirio y ceir cynnig rhybudd syml neu awgrymu, er enghraifft, gyhoeddi Hysbysiad Cosb am Anrhefn.

Fodd bynnag, yr heddlu sydd i benderfynu ar gyhoeddi Hysbysiad Cosb am Anrhefn.

Mae derbyn rhybudd amodol, rhybudd syml neu benderfyniad arall tu allan i'r llys y cydymffurfir ag o yn cymryd lle erlyniad. Os gwrthodir y cynnig o benderfyniad tu allan i'r llys, rhaid cael erlyniad ar gyfer y drosedd wreiddiol. Os na chydymffurfir ag amodau'r penderfyniad tu allan i'r llys, bydd erlynwyr yn ailystyried lles y cyhoedd ac yn penderfynu p'un a ddylid cyhuddo'r troseddwr neu beidio. Fel arfer, dylid erlyn am y drosedd wreiddiol.

Ieuenctid

I ddibenion cyfraith droseddol, mae person ifanc yn rhywun sydd dan 18 oed.

Rhaid i erlynwyr dalu sylw i brif amcan y system cyfiawnder i'r ifanc sef i atal troseddu gan blant a phobl ifanc. Rhaid i erlynwyr ystyried buddiannau'r bobl ifanc wrth benderfynu a fydd erlyniad yn eu herbyn er lles y cyhoedd. Fodd bynnag, ni ddylai erlynwyr osgoi penderfynu erlyn oherwydd oed y sawl a ddrwgdybir yn unig. Mae difrifoldeb y drosedd neu ymddygiad y person ifanc yn y gorffennol yn bwysig iawn.

Fel arfer, ni fydd achosion sy'n gysylltiedig â phobl ifanc yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth erlyn nes bydd y person ifanc eisoes wedi derbyn cerydd a rhybudd terfynol, oni bai fod y drosedd mor ddifrifol fel nad oedd yr un o'r rhain yn briodol neu nad yw'r plentyn neu berson ifanc yn cyfaddef iddo neu iddi gyflawni'r drosedd.

Bwriad ceryddon, rhybuddion terfynol a rhybuddion amodol yw atal aildroseddu ac mae'r ffaith fod trosedd bellach wedi digwydd yn awgrymu na fu'r gwarediadau blaenorol yn effeithiol. Fel arfer bydd lles y cyhoedd yn gofyn am erlyniad mewn achosion o'r fath.

Derbyn Pledion Euog

Weithiau bydd diffynnydd eisiau pledio'n euog i rai o'r cyhuddiadau ond nid pob un, neu i drosedd wahanol, lai difrifol o bosibl. Dim ond os gall y llys basio dedfryd sy'n cyd-fynd â difrifoldeb y troseddu y dylai erlynwyr gytuno i hyn. Ni ddylai erlynwyr ofyn i farnwr na'r ynadon i basio math penodol o ddedfryd.

Wrth benderfynu a yw'r pledion a gynigir yn dderbyniol, dylai erlynwyr sicrhau yr ystyrir buddiannau'r dioddefydd, neu mewn achosion priodol, farn teulu'r dioddefydd, wrth benderfynu a yw derbyn y ple er lles y cyhoedd. Fodd bynnag, yr erlynydd sy'n gyfrifol am y penderfyniad.

Ailystyried Penderfyniad i Erlyn

Fel arfer, os yw'r gwasanaeth erlyn yn dweud wrth sawl a ddrwgdybir neu ddiffynnydd na fydd erlyniad, neu fod yr erlyniad wedi ei atal, ni fydd yr achos yn ailgychwyn. Ond o bryd i'w gilydd mae rhesymau arbennig pan fydd y gwasanaeth erlyn yn gwyrdroi penderfyniad i beidio erlyn. Gall y rhesymau hyn gynnwys os fydd golwg newydd ar y dystiolaeth wreiddiol yn dangos ei fod yn anghywir a bod angen erlyniad i gynnal

hyder yn y system gyfiawnder droseddol; neu oherwydd bod mwy o dystiolaeth ar gael yn hwyrach.

Llinell Gymorth i Ddioddefwyr

Os ydych angen mwy o gymorth neu gefnogaeth, gallwch ffonio'r Llinell Gymorth i Ddioddefwyr:

0845 30 30 900

Mae'n cael ei redeg gan Gymorth i Ddioddefwyr, elusen annibynnol y mae ei staff a gwirfoddolwyr hyfforddedig yn darparu cefnogaeth emosiynol, gwybodaeth a chymorth ymarferol i bobl a effeithiwyd gan droseddu.

Mae'r Llinell Gymorth i Ddioddefwyr yn rif lleol ac yn bwynt cyswllt hanfodol i unrhyw un sydd wedi dioddef o ganlyniad i drosedd, p'un a adroddwyd ar y drosedd neu beidio.

Gall staff esbonio'r gwasanaethau am ddim a chyfrinachol sydd ar gael trwy Gymorth i Ddioddefwyr a'ch rhoi mewn cysylltiad â'u Cynllun Cymorth i Ddioddefwyr neu Wasanaeth Tystion lleol neu sefydliad arall os oes angen.

Cwynion

Rydym yn ceisio delio â chwynion mewn ffordd sensitif, deg ac yn gyfrinachol. Gellir dod o hyd i fanylion ein gweithdrefn gwynion ar wefan y CPS: www.cps.gov.uk

Cysylltiadau defnyddiol

Mae'r system gyfiawnder droseddol yn cynnwys nifer o asiantaethau. Gallai'r asiantaethau canlynol fod yn ddefnyddiol os ydych yn chwilio am ragor o wybodaeth.

Y Swyddfa Gartref
www.homeoffice.gov.uk
Ffôn: 020 7035 4848
E-bost: public.enquiries@homeoffice.gsi.gov.uk

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
www.justice.gov.uk
Ffôn: 020 3334 3555
E-bost: general.queries@justice.gsi.gov.uk

Gwasanaeth Llysoedd
www.hmcourts-service.gov.uk
Ffôn: 0845 4568770

Y Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol
www.cjsonline.gov.uk
E-bost: OCJRenquiry@cjs.gsi.gov.uk

Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu
www.acpo.police.uk
Ffôn: 020 7084 8950
E-bost: info@acpo.pnn.police.uk

Cymorth i Ddioddefwyr
www.victimsupport.org.uk
Ffôn: 0845 30 30 900

Cymdeithas Genedlaethol Gofal ac Ailsefydlu Troseddwyr
www.nacro.org.uk
Ffôn: 020 7840 7200

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
www.yjb.gov.uk
Ffôn: 020 3372 8000
E-bost: enquiries@yjb.gov.uk

Ymholiadau'r CPS
Am wybodaeth gyffredinol ar y CPS a chyngor ar bwy ddylid cysylltu â nhw, cysylltwch ag Ymholiadau'r CPS E-bost: enquiries@cps.gsi.gov.uk

Nid yw'r uned yn gallu rhoi cyngor cyfreithiol ond mae'n bosib y gallan nhw gynnig gwybodaeth ymarferol. Gallwch roi adborth ffurfiol neu fanylion unrhyw gŵyn trwy'n gwefan.

Mae hon yn ddogfen gyhoeddus.

Mae copïau eraill o'r ddogfen hon a gwybodaeth am ieithoedd a fformatau eraill ar gael gan:

CPS Communication Division
Rose Court
2 Southwark Bridge
Llundain SE1 9HS

E-bost: publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Am wybodaeth ar Wasanaeth Erlyn y Goron, ac i weld a lawrlwytho copi electronig o'r ddogfen hon, ewch i'n gwefan:

www.cps.gov.uk

Cyfarwyddiaeth Polisi'r CPS
© Hawlfraint y Goron 2010